




Canllawiau ar yr Adolygiad Iechyd a Lles Blynyddol NEWYDD

Hydref 2023



Yn gyntaf, bydd angen i chi fewngofnodi i **Borth Milfeddygon WLBP**. Os nad ydych chi wedi cofrestru ar y wefan eto, yna dewiswch i gofrestru a dilynwch y camau.

Cysylltwch â ni os ydych chi angen rhif aelodaeth y practis neu gymorth.

Unwaith y byddwch chi wedi mewngofnodi, byddwch yn gweld tudalen hafan Porth Milfeddygon WLBP lle byddwch yn dod o hyd i restr o gleientiaid FAWL sy'n gysylltiedig â'ch practis.

Yma byddwch yn gallu chwilio am eich aelodau gan ddefnyddio naill ai Cyfeirnod y Cynllun, Cod Post, Rhif CPH, Enw Fferm neu Gyfenw.

Os nad ydych yn gallu gweld cleient, yna cysylltwch â ni.

WLBP

Help Gosodiadau Allgofnodi

Hafan / Dewis Aelod

Croeso i Borth Milfeddygon WLBP

Gweler isod gleientiaid FAWL sydd wedi eich enwebu fel eu milfeddyg ac sy'n ei gwneud yn ofynnol cwblhau adolygiad iechyd a lles blynyddol a chyfrifiad Defnydd Gwrthficrobaidd. Os na allwch ddod o hyd i gleient yn y rhestr hon, cysylltwch â swyddfa WLBP ar 01970636688 neu drwy e-bostio healthplan@wlbp.co.uk

Dewis Aelod

Dewiswch aelod rydych am gael mynediad i gynllun iechyd a chofnodion meddygol ar ei ran

Rhif Cyfeirnod y Cynllun

Cod Post Enw'r Fferm

Rhif CPH Enw Olaf

Dim ond dangos aelodau sydd wedi cofrestru ar gyfer cynlluniau iechyd a chofnodion fferm

Rhif Cyfeirnod y Cynllun	Enw Llawn	Enw'r Fferm	Cod Post	Rhif CPH	Cod post CPH	Dyddiad Adolygiad blynyddol diwethaf	Dyddiad Adolygiad blynyddol	Wedi cofrestru	Dewiswch
F999920	Edwards	Eithinmawr	SY20 8AL	99/999/9920	SY20 8AL	02/08/2023	02/06/2024	Na	Dewiswch
F999914	Evans	Alltwn	SY20 8HN	99/999/9914	SY20 8HN	17/05/2023	17/03/2024	Na	Dewiswch
F999919	Griffiths	Y Felin	SY20 8HU	99/999/9919	SY20 8HU	01/08/2023	01/06/2024	Na	Dewiswch
F999917	Hughes	Efailddu	SY20 7JD	99/999/9917	SY20 7JD	15/12/2022	15/10/2023	Na	Dewiswch
F999912	Jones	Rhosgwyn	SY20 8LL	99/999/9912	SY20 8LL	17/05/2022	17/03/2023	Ydw	Dewiswch
F999918	Morgan	Coedhir	SY20 7LL	99/999/9918	SY20 7LL	03/08/2023	03/06/2024	Na	Dewiswch
F999921	Owen	Eithinbach	SY20 8YT	99/999/9921	SY20 8YT	17/08/2023	17/06/2024	Na	Dewiswch
F999916	Roberts	Gwyndy	SY20 7FD	99/999/9916	SY20 7FD	22/09/2023	22/09/2024	Na	Dewiswch
F999915	Thomas	Cefnhir	SY20 7GY	99/999/9915	SY20 7GY	31/07/2023	31/05/2024	Na	Dewiswch
F999913	Williams	Bryn mawr	SY20 8JL	99/999/9913	SY20 8JL	26/10/2021	26/08/2022	Na	Dewiswch

Tudalen 1 of 3

Gweld 1 - 10 of 28

Bydd gan y 'Dyddiad Adolygu Blynyddol Diwethaf' god lliw nawr. Bydd y rhai mewn gwyrdd yn gyfredol, bydd yr adolygiad blynyddol wedi'i gwblhau yn ystod y 12 mis diwethaf. Ar gyfer y rhai sydd wedi'u lliwio'n goch, ni fydd adolygiad blynyddol wedi'i gwblhau ar-lein yn ystod y 12 mis diwethaf.

Unwaith y byddwch wedi dewis Aelod, fe welwch y sgrin ganlynol:

Hafan


Croeso i Borth Milfeddygon WLBP

Ar gyfer y ffermwr a ddewiswyd, gallwch:


- Cwblhau eu Hadolygiad Iechyd a Lles Blynyddol FAWL
- Rhedeg y Gyfrifiannell Defnydd Gwrthficrobaidd: Cig Eidion, Defaid a Llaeth
- Poblogi/Golygu eu Cynllun Iechyd

Dewis opsiwn o'r ddewislen isod:

Adolygiad Iechyd a Lles Blynyddol



Cyfrifiannell AMU



Cyfrifiadau AMU wedi'u Cwblhau Blwyddyn

2022 ✓

Yma byddwch nawr yn gallu gweld ar unwaith a yw'r Cyfrifiad AMU wedi'i gwblhau ar gyfer y cyfnod adrodd. Bydd tic gwyrdd yn ymddangos os yw wedi'i gyflwyno a chroes goch os nad yw wedi'i gyflwyno.

Cyfrifiadau AMU wedi'u Cwblhau Blwyddyn

2022 ✗

Os yw Cyfrifiad AMU wedi'i gwblhau, yna gallwch fynd ymlaen a chlicio ar 'Annual Health & Welfare Review' i ddechrau'r adolygiad.

Os nad yw'r Cyfrifiad AMU wedi'i gwblhau, yna mae'n hanfodol ei fod yn cael ei gwblhau cyn yr adolygiad.

Cyfeiriwch at Ganllawiau Cyfrifiannell AMU am gymorth yn yr adran hon




Cyswllt

Aelod Gweithredol: WLBP 5 Newid

Hafan Diadell Buches Adolygiad Iechyd a Lles Blynyddol Cyfrifiannell AMU
Help Gosodiadau Allgofnodi

Hafan / Adolygiad Iechyd a Lles Blynyddol

Adolygiad Blynyddol o Iechyd a Lles Da Byw

Adolygiad blynyddol o'r wybodaeth a ddarparwyd gan Gynllun Iechyd y Ffermwr, Bioddiogelwch a chofnodion Meddygol a Milfeddygol

+ Ychwanegu newydd

Adolygiadau Blynyddol o Iechyd a Lles Da Byw for WLBP 5				
Blwyddyn	Dyddiad	Gan	Statws	
Ni chanfuwyd unrhyw gofnodion				

Cliciwch ar 'Add New' i ddechrau'r Adolygiad Iechyd a Lles Blynyddol ar gyfer yr aelod.


Yma byddwch nawr yn creu Adolygiad Iechyd a Lles Blynyddol yn y fformat NEWYDD.
Bydd y Cyfrifiad AMU yn atodi'n awtomatig os yw wedi'i gyflwyno ar gyfer y flwyddyn adrodd berthnasol, bydd hyn yn dangos baner werdd.
Os nad yw wedi'i gyflwyno, bydd y faner goch hon yn ymddangos, fel y dangosir isod:

Hafan Diadell Buches Adolygiad Iechyd a Lles Blynyddol Cyfrifiannell AMU Help Gosodiadau Allgofnodi

Hafan / Adolygiad Blynyddol o Iechyd a Lles Da Byw

Adolygiad Blynyddol o Iechyd a Lles Da Byw

Adolygiad blynyddol o'r wybodaeth a ddarparwyd gan Gynllun Iechyd y Ffermwyr, Bioddiogelwch a chofnodion Meddygol a Milfeddygol

Dyddiad yr Adolygiad  [Gweld y Cynllun Iechyd](#)

Dewiswch Gyfrifiad AMU

❗ Cyfrifiad AMU
Cwblhewch a dewiswch gyfrifiad AMU ar gyfer 2022

Pa rywogaethau sydd ar y fferm hon

Defaid
Eidion
Godro

Os cedwir mwy nag un practis gan y fferm, rhaid i'r adolygiad hwn gynnwys yr holl feddyginiaethau ar bresgripsiwn/a ddefnyddir

  Adolygiad awto-gadw....

Mae'r adolygiad nawr yn dechrau drwy ofyn 'What species are present on this farm', bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhagboblogi â'r wybodaeth sydd gennym ar ein system ar gyfer yr aelod a ddewiswyd a'r wybodaeth a gyflwynir ar Gyfrifiannell AMU.

Gallwch ddiystyru'r blychau ticio hyn os ydych yn ymwybodol o rywogaethau sy'n bresennol ar y fferm na chawsant eu ticio'n awtomatig. Os na chaiff rhywogaeth ei dicio gan nad yw'n berthnasol i'r fferm, yna ni fydd y cwestiynau sy'n ymwneud â'r rhywogaeth honno yn ymddangos yn yr adolygiad.

Bydd yr adolygiad nawr yn arbed yn awtomatig cyn gynted ag y byddwch chi'n ychwanegu adolygiad newydd. Os oes angen i chi oedi'r adolygiad a dod yn ôl ato yn nes ymlaen, bydd nawr yn cael ei gadw fel drafft hyd yn oed os na chewch gyfle i Arbed a Chau.

Cofnodion meddygaeth

Cadarnhewch fod cofnodion meddygaeth fferm diweddar wedi'u hadolygu sy'n cynnwys cyfanswm y gwrthfotigau ar bresgripsiwn ac a ddefnyddiwyd. Cyfeiriwch at Gyfrifiannell AMU.

Ydw Na

Os gwelwch yn dda, gwnewch sylwadau ar y cofnodion meddygaeth:

B *I* U ☰ ☰

Byddwch nawr yn gallu fformatio'r testun rydych chi'n ei nodi yn yr adolygiad. Mae opsiynau ar gyfer **Bold**, *Italig* a Thanlinellu Yn ogystal â rhifau a phwyntiau bwled. Bydd y blychau testun nawr hefyd yn ehangu wrth i chi deipio.

Cwestiynau Tractor Coch Llaeth:



Blaenoriaethau iechyd a pherfformiad godro

Rwyf wedi adolygu'r cofnodion iechyd a pherfformiad ac yn argymhell y dylid gweithredu ar y blaenoriaethau canlynol:

[+ Ychwanegu rhes arall](#)

Esboniad Byr

Camau i'w cymryd

B *I* U ☰ ☰

B *I* U ☰ ☰

Gwaredu rhes

Os caiff Dairy ei ddewis fel rhywogaeth ar ddechrau'r adolygiad, yna bydd cwestiynau *Dairy Red Tractor Health & Performance Review* yn ymddangos drwyddi draw, byddwch yn gallu cydnabod y rhain a bydd Logo'r Tractor Coch yng nghornel dde uchaf pob cwestiwn perthnasol.

Pan fyddwch yn ateb y cwestiynau hyn, byddwch yn llenwi PDF ar wahân ar gyfer Adolygiad y Tractor Coch. Gallwch gael mynediad at hwn drwy ddewis 'Print Dairy RT' unwaith y bydd yr adolygiad wedi'i gyflwyno. Ni fydd yr adolygiad Tractor Coch hwn yn cael ei anfon i unrhyw le. Mae'n cael ei gynnwys i arbed amser i chi'ch hun trwy fewnbynnu gwybodaeth i un adolygiad ar-lein yn unig ond mae'n cynhyrchu dau adroddiad.

Bellach bydd adran Cyfrifo AMU ddynodedig yn yr Adolygiad Iechyd a Lles Blynyddol.

Yma bydd y ffigurau mg/kg yn cael eu mewngludo o'r Gyfrifiannell AMU, data'r flwyddyn gyfredol a data'r flwyddyn flaenorol. Yn y tabl hwn hefyd bydd Cyfartaledd Aelodaeth WLBP ar gyfer y flwyddyn adrodd gyflawn ddiweddaraf. Er mwyn i chi allu cymharu â'r aelodau mg/kg.

Cyfrifiad AMU

Eich Canlyniadau Cyfrifiad AMU:

Math o Fenter	mg/kg Blwyddyn Flaenorol	mg/kg Blwyddyn Gyfredol
Defaid (Canolrif aelodaeth WLBP 2021: 8.40 mg/kg)	0	2
Eidion (Canolrif aelodaeth WLBP 2021: 10.37 mg/kg)	0	1.6

Ticiwch os ydych yn credu bod gwrthfotigau eraill wedi'u rhoi ar bresgripsiwn gan bractis milfeddygol arall ar gyfer y fferm hon, ac felly nid ydyn nhw wedi'u cynnwys yng Nghyfrifiadau AMU

Rhestrwch y cyflwr/cyflyrau y mae pob un o'r gwrthfotigau hyn wedi'u defnyddio i drin:

Defaid	Gwrthfotig a ddefnyddiwyd	Defnyddiwyd i drin cyflwr/cyflyrau	Pryderus
	Depocillin 300 mg/ml Suspension for Injection [54900.0 mgs] [300.0 Mls]	Dewiswch Gyflwr neu deipiwch un newydd a phwyswch Enter, g	<input type="checkbox"/>
	Engemycin 10% DD Solution for Injection [1000.0 mgs] [10.0 Mls]	Dewiswch Gyflwr neu deipiwch un newydd a phwyswch Enter, g	<input type="checkbox"/>
	Pharmasin 200 mg/ml Solution for Injection for Cattle and Pigs [180.0 mgs] [0.9 Mls]	Dewiswch Gyflwr neu deipiwch un newydd a phwyswch Enter, g	<input type="checkbox"/>
	Terramycin Aerosol Spray 3.92% w/w Cutaneous Spray [81600.0 mgs] [20.4 Cans]	Dewiswch Gyflwr neu deipiwch un newydd a phwyswch Enter, g	<input type="checkbox"/>
	Trymox LA 150 mg/ml Suspension for Injection for Cattle, Sheep, Pigs, Dogs, Cats [900.0 mgs] [6.0 Mls]	Dewiswch Gyflwr neu deipiwch un newydd a phwyswch Enter, g	<input type="checkbox"/>
Eidion	Gwrthfotig a ddefnyddiwyd	Defnyddiwyd i drin cyflwr/cyflyrau	Pryderus
	Apotil 300 mg/ml Solution for Injection [21060.0 mgs] [70.2 Mls]	Dewiswch Gyflwr neu deipiwch un newydd a phwyswch Enter, g	<input type="checkbox"/>
	Depocillin 300 mg/ml Suspension for Injection [18300.0 mgs] [100.0 Mls]	Dewiswch Gyflwr neu deipiwch un newydd a phwyswch Enter, g	<input type="checkbox"/>
	Engemycin 10% DD Solution for Injection [8000.0 mgs] [80.0 Mls]	Dewiswch Gyflwr neu deipiwch un newydd a phwyswch Enter, g	<input type="checkbox"/>
	Pen & Strep Suspension for Injection [99000.0 mgs] [220.0 Mls]	Dewiswch Gyflwr neu deipiwch un newydd a phwyswch Enter, g	<input type="checkbox"/>
	Pharmasin 200 mg/ml Solution for Injection for Cattle and Pigs [720.0 mgs] [3.6 Mls]	Dewiswch Gyflwr neu deipiwch un newydd a phwyswch Enter, g	<input type="checkbox"/>
	Trymox LA 150 mg/ml Suspension for Injection for Cattle, Sheep, Pigs, Dogs, Cats [150.0 mgs] [1.0 Mls]	Dewiswch Gyflwr neu deipiwch un newydd a phwyswch Enter, g	<input type="checkbox"/>

Defaid/Eidion:

Bellach mae tabl sy'n rhestru'r gwrthfotigau a ddefnyddiwyd ar gyfer pob menter ar gyfer y flwyddyn adrodd (wedi'i fewngludo o Gyfrifiannell AMU). Byddwch yn gallu dewis y cyflyrau y defnyddiwyd y gwrthfotigau hyn i'w trin, mae hyn yn amlddewis a byddwch hefyd yn gallu teipio cyflyrau newydd nad ydynt o bosibl ar y rhestr. Mae blwch ticio wrth ymyl pob gwrthfotig a ddefnyddir, gallwch dicio hwn os ydych yn pryderu am y defnydd o'r gwrthfotig hwn a'i adael heb ei dicio os nad ydych yn pryderu. Yn olaf, mae blwch argymhellion lle gallwch chi gynghori'r gostyngiad cyfrifol o wrthfotigau ar y fferm, os yw'n briodol.

Mae Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid yr UE yn ei gwneud yn ofynnol i ffermydd sy'n cynhyrchu anifeiliaid neu gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid i'w hallforio i'r UE gael ymweliadau milfeddygol rheolaidd. Roedd mesur dros dro yn caniatáu i ffermwyr ddatgan eu hunain, ond o **13 Rhagfyr 2023** mae'n rhaid i gynhyrchwyr sy'n anfon anifeiliaid i'r farchnad neu i'w lladd allu dangos bod ymweliad milfeddygol wedi'i gynnal yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae o leiaf rhyw gyfran o'r rhan fwyaf o garcasau yn cael ei allforio sy'n golygu y bydd angen i'r rhan fwyaf o fusnesau fferm sicrhau cydymffurfiaeth. Gellir ardystio'r gofyniad os yw'r fferm yn aelod o gynllun sicrwydd cydnabyddedig (Tractor Coch, Cynhyrchwyr Cig Eidion a Chig Oen Cymru, a Quality Meat Scotland ar hyn o bryd) neu pan fydd ymweliad wedi'i gynnal fel rhan o Animal Health and Welfare Pathway for England.

Ymweliad milfeddyg

A ydi'r milfeddyg wedi ymweld â'r fferm yn ystod y 12 mis diwethaf ac wedi gweld Eidion a/neu ddefaid am unrhyw arwydd o glefyd?
Trwy dicio ydi, bydd hyn yn galluogi i'r fferm gydymffurfio â gofynion ardystio allforio.

Ydw Na

Sylwadau Ychwanegol Defaid ac Eidion

B *I* U ☰ ☰

↶ ↷

Sylwadau Ychwanegol Godro

Rwyf wedi trafod mentrau clefydau perthnasol y diwydiant i wella iechyd anifeiliaid ac wedi gwneud yr argymhellion canlynol:

B *I* U ☰ ☰

↶ ↷



Bellach mae blychau Sylwadau Ychwanegol wedi'u cynnwys yn agos at ddiwedd yr adolygiad. Mae'r rhain i'w defnyddio os oes angen, nid ydynt yn orfodol.

Mae opsiwn bellach i atodi Dogfennau Ychwanegol i'r adolygiad os dymunwch wneud hynny. Efallai y bydd canllaw cymorth a allai fod o ddefnydd i'r aelod neu daflen wybodaeth am glefydau a allai fod o gymorth. Mae'r adran hon yn ddewisol, ac nid yw'n orfodol i chi atodi dogfennau i'r adolygiad. Yna bydd y dogfennau ar gael i'r aelod weld a yw wedi cofrestru ar gyfer Cofnodion Fferm WLBP ei hun.

Dogfennaeth Ychwanegol Adolyglad Blynyddol

Gallwch uwchlwytho ffeiliau amrywiol i ategu'r adroddiad y gofynnwyd amdano. Y fformatau ffeil a gefnogir i'w uwchlwytho ydi delwedd (e.e. JPEG, PNG) a dogfen (e.e. PDF, DOC a DOCX).

+ Ychwanegu Ffeil arall

Disgrifiad

Dewisiadau Ffeil

+ Dewiswch ffeil ac Uwchlwythwch

- Tynnu

Datganiad y Milfeddyg

Mae'r blaenoriaethau a'r camau a argymhellaf uchod yn sieliedig ar y data a'r ffeithiau a ddarparwyd i mi. O'r herwydd, gallai effeithiolrwydd fy argymhellion gael ei gyfyngu gan gwirdeb y wybodaeth a ddarparwyd.

Dyddiad y
Datganiad



Bydd cadarnhau datganiad y milfeddyg yn nodi bod yr adolygiad iechyd a lles wedi'i gwblhau, gan olygu na fyddwch yn gallu ei olygu rhagor.



Cadw a Chau

Cam olaf yr adolygiad fydd Datganiad y Milfeddyg. Yma bydd angen i chi dicio'r datganiad a rhoi'r dyddiad. Yna unwaith y byddwch wedi cadw popeth, bydd yr adolygiad yn cael ei gyflwyno i swyddfa FAWL ac ni fyddwch yn gallu golygu'r adolygiad mwyach.

Yna bydd angen i chi naill ai ARGRAFFU neu E-BOSTIO copi o PDF Adolygiad FAWL at yr aelod. Bydd angen i'r aelod gael copi ei hun o'r adolygiad. Nid yw cyflwyno'r adolygiad ar-lein yn ddigon, mae'n hanfodol bod y ffermwr yn cael copi o'i Adolygiad Iechyd a Lles Blynyddol. Os ydynt wedi cofrestru ar Gofnodion Fferm WLBP, yna byddant yn gallu gweld eu hadolygiad diweddaraf a Chyfrifiad AMU ar-lein ar eu cyfrif.

Unwaith y byddwch wedi ticio Datganiad y Milfeddyg a chyflwyno'r adolygiad, dylai nawr ddweud 'Cwblhau ar ran y Ffermwr' yn lle Drafft.

Hafan

Adolygiad Iechyd a Lles Blynyddol

Cyfrifiannell AMU

Help

Gosodiadau

Allgofnodi

Hafan / Adolygiad Iechyd a Lles Blynyddol

Adolygiad Blynyddol o Iechyd a Lles Da Byw

Adolygiad blynyddol o'r wybodaeth a ddarparwyd gan Gynllun Iechyd y Ffermwr, Boddlogelwch a chofnodion Meddygol a Milfeddygol

+ Ychwanegu newydd

Adolygiadau Blynyddol o Iechyd a Lles Da Byw for Roberts

Blwyddyn	Dyddiad	Gan	Statws	
2023	22/09/2023	WLBP vet	Cwblhau ar ran y Ffermwr	Gweld Argraffu FAWL Argraffu RT Godro Gweld 2022 Cyfrifiad
2023	21/09/2023	WLBP vet	Cwblhau ar ran y Ffermwr	Gweld Argraffu FAWL Argraffu RT Godro Gweld 2022 Cyfrifiad

Gweld | Argraffu FAWL | Argraffu RT Godro | Gweld 2022 Cyfrifiad

Cliciwch ar 'Argraffu FAWL' i agor Adolygiad Iechyd a Lles Blynyddol FAWL. Yna byddwch yn gallu naill ai Cadw neu Argraffu'r Adolygiad.

Bydd yr adolygiad yn cael ei anfon ymlaen i swyddfa FAWL ac yn gysylltiedig â chyfrif yr aelod.

Cliciwch ar 'Argraffu RT Godro' i agor Adolygiad Iechyd a Pherfformiad y Tractor Coch. Yna byddwch yn gallu naill ai Cadw neu Argraffu'r Adolygiad. *Sylwch na fydd hwn yn cael ei gyflwyno'n awtomatig i'r Tractor Coch.*

Cliciwch ar 'Gweld 2022 Cyfrifiad' i agor Adroddiad llawn yr AMU sy'n cynnwys yr holl graffiau a siartiau. Yna byddwch yn gallu naill ai Cadw neu Argraffu'r Cyfrifiad.



Manylion cyswilt:

Grace Rees-Jones - 07776950444 - gracerj@wlbp.co.uk

Llŷr Lewis - 07741549270 - llyrl@wlbp.co.uk

Ffôn: 01970 636688

E-bost: healthplan@wlbp.co.uk

Gwefan: <https://farmrecords.wlbp.co.uk/WLBP/Default.aspx>

Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf (WLBP) Heol y Gogledd, Gorseland, Aberystwyth, SY23 2HE

